WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyhoeddwyd: Medi 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 452A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Helen Keatley o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran sicrhau gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n cydnabod bod angen cefnogi'r broses o wella gwasanaethau plant; awgryma ei drefniadau blaengynllunio a'i hanes blaenorol ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant yn 2015-16 5

Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 5

Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau 7

Cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion 8

Adroddiad manwl 10

Perfformiad 11

Y defnydd o adnoddau 17

Llywodraethu 20

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 23

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 y Cyngor 24

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad y Cyngor o berfformiad 2013-14 26

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 28

Atodiad 5 – Argymhellion Adroddiadau Cenedlaethol 30

Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau'r Cyngor 35

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Mai 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom ar post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Dyletswyddau a gofynion a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran sicrhau gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n cydnabod bod angen cefnogi'r broses o wella gwasanaethau plant; awgryma ei drefniadau blaengynllunio a'i hanes blaenorol ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant yn 2015-16

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi seilio'r casgliad hwn ar waith archwilio perfformiad a wnaed yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith arolygu rheoleiddwyr eraill. Crynhoir isod y prosiectau yr ymgymerwyd â hwy, ynghyd â'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio ohonynt.

## Gwaith archwilio perfformiad 2014-15

8 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Yn ystod 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: perfformiad; y defnydd o adnoddau; a llywodraethu. Roedd prosiectau unigol yr ymgymerodd Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr eraill â hwy yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Rheoli Perfformiad** | Effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. | Mis Hydref i fis Rhagfyr 2014 |
| **Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru: Cyflawni â Llai: Yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** | Adolygiad Cymru Gyfan o effaith pwysau ariannol ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion. | Mis Ebrill 2014 i fis Ionawr 2015 |
| **Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn** | Perfformiad ac effeithiolrwydd y Cyngor o ran gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. | Mis Ionawr i fis Mawrth 2015 |
| **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2013-14** | Adolygiad AGGCC o berfformiad gwasanaethau oedolion a phlant y Cyngor. | Mis Ebrill i fis Hydref 2014 |
| **Ymweliadau Monitro Estyn** | Diweddariad ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r meysydd lle mae angen gwella fel y'u nodwyd gan Estyn ym mis Hydref 2012. | Mis Mawrth 2014 a mis Rhagfyr 2014 |

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg** | Adolygiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau'r Gymraeg. | Mis Gorffennaf i fis Awst 2014 |
| **Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o Gynllunio Ariannol** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. | Mis Gorffennaf i fis Medi 2014 |
| **Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau ar gyfer Nodi a Gwneud Arbedion** | Effeithiolrwydd dull gweithredu presennol ac arfaethedig y Cyngor – er mwyn gwneud arbedion. | Mis Ionawr i fis Mawrth 2015 |
| **Gwerthusiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fodelau amgen ar gyfer Darparu Gwasanaethau** | Asesiad o ba mor barod yw'r Cyngor o ran gwerthuso opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. | Mis Ebrill i fis Gorffennaf 2015 |
| **Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau i Gefnogi Diogelu Plant** | Adolygiad Cymru Gyfan o drefniadau cynghorau i gefnogi diogelu plant; mae'n cynnwys adolygiad o drefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor. | Mis Ebrill i fis Hydref 2014 |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mis Ebrill i fis Mehefin 2014 |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. | Hydref/Tachwedd 2014 |
| **Archwilio cyfrifon** | Adolygiad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ac a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn. | Mis Ebrill i fis Tachwedd 2014 |

## Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau

9 Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'r rheoleiddwyr eraill, yn 2014-15.

| Thema | Astudiaeth |
|---|---|
| **Perfformiad** | **Swyddfa Archwilio Cymru:** Trefniadau rheoli perfformiad. Dangosodd dangosyddion cenedlaethol ar gyfer 2013-14 ddarlun cymysg o berfformiad gyda dirywiad penodol mewn perfformiad o ran dangosyddion gwasanaethau plant. Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio gweithgarwch gwella yn y meysydd cywir a mireinio ei systemau adrodd.<br>Cynhaliwyd ymweliad monitro olaf **Estyn** ym mis Rhagfyr 2014 a chanfu fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu argymhellion arolygiad 2012 ac nad oedd angen gwaith monitro pellach.<br>Nododd **AGGCC** fod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymdrin â meysydd allweddol i'w gwella ond erys heriau sylweddol.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru:** Wrth ddarparu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd mae'r Cyngor yn rhagori ar y safon ofynnol neu yn ei chyrraedd yn y rhan fwyaf o'i wasanaethau.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru:** Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran neilltuo ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ond ni all farnu effeithiolrwydd ei waith o ran mynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles.<br>**Comisiynydd y Gymraeg:** Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau i estyn y ddarpariaeth Gymraeg wrth ddarparu ei wasanaethau. |
| **Y defnydd o adnoddau** | **Swyddfa Archwilio Cymru:** Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru:** Mae'r Cyngor yn parhau â'i ddull gweithredu cadarn o ran ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru:** Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer nodi a gwneud arbedion yn dangos y rhan fwyaf o'r ffactorau sydd eu hangen i sicrhau llwyddiant. |
| **Llywodraethu** | **Swyddfa Archwilio Cymru:** Mae'r Cyngor wedi llwyddo i fabwysiadu dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau yn y gorffennol, mae'n eu rheoli'n effeithiol ar hyn o bryd ac yn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru:** Roedd trefniadau ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau am ddiogelu plant yn ddigonol. |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | **Swyddfa Archwilio Cymru:** Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau archwilio yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Atodiadau 2 a 3). |
| **Archwilio cyfrifon** | **Swyddfa Archwilio Cymru:** Ar 10 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor (Atodiad 4). |

## Cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

12 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i gynghorau yn ei adroddiadau cenedlaethol ar lywodraeth leol. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5.

## Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **Perfformiad** | |
| C1 | Esbonio'r rheswm dros darged gwella a faint o welliant a ddisgwylir. |
| C2 | Adolygu 'mesurau llwyddiant' er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwneud yn bosibl i'r perfformiad a fwriedir gael ei werthuso a bod yr esboniad o'r perfformiad yn seiliedig ar y mesur hwnnw. |
| **Adnoddau** | |
| **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig** | |
| C3 | Mireinio'r trefniadau adrodd 'dangosfwrdd' ymhellach er mwyn ei gwneud yn bosibl i effaith gostyngiadau ariannol ar ansawdd gwasanaethau gael ei gwerthuso. |
| C4 | Cynnwys mwy o fanylion yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ynglŷn â sut mae'n ymdrin â phob amcan gwella; byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i roi enghreifftiau o fuddsoddi mewn meysydd sy'n ymwneud â'i flaenoriaethau gwella. |
| **Strategaeth Arbedion** | |
| C5 | Dylai'r Cyngor egluro ei weledigaeth yn y tymor canolig a'r hyn a olyga o ran blaenoriaethau corfforaethol a ffurf y Cyngor yn y dyfodol fel y gall rheolwyr gynllunio ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau a lleihau costau yn well. |
| C6 | Dylai'r Cyngor annog rheolwyr gwasanaethau i wneud defnydd ehangach o wybodaeth reoli er mwyn llywio cynlluniau arbedion posibl. |
| **Llywodraethu** | |
| **Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau** | |
| C7 | Pennu opsiynau a ffefrir ar lefel gwasanaeth yn seiliedig ar werthoedd y Cyngor fel modd o roi arweiniad wrth arfarnu opsiynau. |
| C8 | Os caiff dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau eu mabwysiadu, sicrhau bod pwrpas strategaethau yn eglur a'u bod wedi'u hategu gan fesurau llwyddiant clir. |
| C9 | Gwerthuso'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â newidiadau o'r fath yn llwyddiannus a'r ffordd y bydd y Cyngor yn sicrhau sgiliau a gwybodaeth o'r fath. |
| **Diogelu** | |
| C10 | Llunio Polisi Diogelu Corfforaethol terfynol sy'n nodi'n glir rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu. |
| C11 | Cwblhau adolygiad y Bwrdd Gwella Strategol Gofal Cymdeithasol o wybodaeth am berfformiad a llunio mesurau sy'n rhoi sicrwydd digonol bod systemau yn gweithio'n effeithiol. |
| C12 | Sicrhau bod y rhaglen sefydlu gorfforaethol ar gyfer pob aelod newydd o staff yn cynnwys hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi diogelu corfforaethol y Cyngor. |
| C13 | Nodi a chytuno ar raglen o waith archwilio mewnol priodol ar gyfer diogelu. |

## Adroddiad manwl

Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran sicrhau gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth ac mae'n cydnabod bod angen cefnogi'r broses o wella gwasanaethau plant; awgryma ei drefniadau blaengynllunio a'i hanes blaenorol ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant yn 2015-16



# Perfformiad

## Dangosodd dangosyddion cenedlaethol ar gyfer 2013-14 ddarlun cymysg o berfformiad gyda dirywiad penodol mewn perfformiad o ran dangosyddion gwasanaethau plant

13 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lunio adroddiadau ar gyfres gyffredin o ddangosyddion er mwyn gallu cymharu perfformiad meysydd gwasanaeth allweddol ledled Cymru. Pennwyd 30 o ddangosyddion strategol cenedlaethol sy'n ymdrin â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae cynghorau yng Nghymru hefyd wedi mabwysiadu 14 o fesurau atebolrwydd cyhoeddus am eu bod yn adlewyrchu materion o bwys lleol fel cymorth i ofalwyr, presenoldeb yn yr ysgol a chyflwr priffyrdd.

14 I grynhoi, o'r cyfanswm o 43 o ddangosyddion a mesurau lle y gellir gwneud cymhariaeth, dangosodd y canlyniadau ar gyfer 2013-14 fod y Cyngor:

- a ymhlith y chwech gorau yng Nghymru ar gyfer 10 o'r 43 o ddangosyddion;
- b ymhlith y chwech gwaethaf yng Nghymru ar gyfer 17 o'r 43 o ddangosyddion;
- c wedi gwella o ran 22 o'r 43 o ddangosyddion o gymharu â'r flwyddyn flaenorol;
- ch wedi dirywio o ran 21 o'r 43 o'r dangosyddion, yn bennaf o ran dangosyddion gwasanaethau plant; ac
- d wedi sicrhau gwelliant sylweddol o ran tri dangosydd.

15 Mae'n rhaid trin y data yn ofalus am nad yw'n nodi ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o reidrwydd ac nid yw'r data, ar eu pen eu hunain, yn dangos bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

16 Y llynedd, nodwyd bod y Cyngor wedi cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad newydd a bod y rhan fwyaf o dimau rheoli gwasanaethau yn cynnal adolygiadau effeithiol o berfformiad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi datblygu'r trefniadau hyn ymhellach gyda'r nod o sicrhau cysondeb wrth weithredu a gwella'r broses o gasglu gwybodaeth am berfformiad. O ystyried y pwysau ariannol parhaus, mae'r Cyngor hefyd yn ceisio dwyn ynghyd y broses o ddarparu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am wasanaethau fel y gall asesu'n well effaith llai o gyllid a pha mor effeithiol y mae'n defnyddio ei adnoddau.

17 Yn ei adroddiad ei hun ar berfformiad, defnyddiodd y Cyngor ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant lleol er mwyn helpu i asesu perfformiad. Nododd ein hadolygiad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad y llynedd fod cyfleoedd pellach i fireinio systemau a bod yn fwy trylwyr wrth asesu perfformiad drwy wneud y canlynol:

- a Bod yn gliriach ynglŷn â'r rheswm dros bennu targed gwella. Er enghraifft, eglurder ynghylch a yw targed yn cael ei bennu gyda'r nod o gyflawni perfformiad sydd ymhlith y gorau; cynnal perfformiad gyda llai o adnoddau; neu ysgogi gwelliant cymharol yn erbyn perfformiad blaenorol y Cyngor.

b Bod yn fwy penodol ynglŷn â faint o welliant a ddisgwylir drwy esbonio ‘faint’ a ‘pa mor dda’. Er enghraifft, nododd y Cyngor fod cyfran y bobl 16-18 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng 2.7 y cant rhwng 2011-12 a 2012-13. Y nod oedd sicrhau cyfran is, felly er y llwyddwyd i wneud hynny nid yw’n glir a oedd hyn yn unol â’r hyn a fwriadwyd gan y Cyngor. Drwy nodi faint o welliant a geisir, ynghyd â’r safon a ddisgwylir, bydd y Cyngor mewn sefyllfa well i asesu’r adnoddau sydd eu hangen er mwyn ysgogi gwelliant a gwneud penderfyniadau ynglŷn â’i flaenoriaethau yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael iddo.

c Adolygu’r ‘mesurau llwyddiant’ a sicrhau bod yr esboniad o berfformiad yn amlwg yn seiliedig ar y mesur hwnnw. Er enghraifft, un o fesurau llwyddiant y Cyngor yw bod ‘nifer yr ymwelwyr â’r fwrdeistref yn cynyddu’ ond yr hyn a nodwyd mewn gwirionedd yw nifer yr ymwelwyr â chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl.

## Cynigion ar gyfer gwella: perfformiad

| | |
|---|---|
| C1 | Esbonio’r rheswm dros darged gwella a faint o welliant a ddisgwylir. |
| C2 | Adolygu ‘mesurau llwyddiant’ er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwneud yn bosibl i’r perfformiad a fwriedir gael ei werthuso a bod yr esboniad o’r perfformiad yn seiliedig ar y mesur hwnnw. |

## Mae’r Cyngor yn ysgogi gwelliant ym maes addysg

18 Gan adlewyrchu ei flaenoriaethau, mae’r Cyngor wedi ceisio diogelu cyllidebau addysg i ryw raddau fel rhan o’i Strategaeth Arbedion gyffredinol. Dengys data StatsCymru ar gyfer 2013-14 fod gwariant alldro refeniw gros o £125,811,000 ar addysg. Gan ystyried chwyddiant, mewn termau real, mae gwariant alldro ar addysg[2] wedi bod yn gymharol sefydlog ers 2011-12.

19 Roedd y Cyngor yn cael ei fonitro gan Estyn yn sgil arolygiad ym mis Hydref 2012. Canfu ymweliad monitro olaf Estyn, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2014, fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu argymhellion yr arolygiad ac nad oedd angen gwaith monitro pellach.

20 Canfu Estyn fod y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith er mwyn cefnogi disgyblion ac ysgolion a gwella perfformiad. Mae’r Cyngor wedi parhau i flaenoriaethu ‘gwella cyflawniad addysgol’ yn ei gynllun gwella corfforaethol ar gyfer 2014-15.

21 At hynny, nododd Estyn fod y gyfradd wella ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion wedi bod yn gyflymach na chyfartaledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen a’r prif ddangosyddion yng nghyfnodau 2, 3 a 4 a oedd yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg a Mathemateg yn agos i gyfartaleddau Cymru yn 2014. Bu gwelliant yn nifer y

2 Fel y’i mesurwyd gan ddatchwyddwyr CMC y Trysorlys ym mis Ebrill 2015.

disgyblion a enillodd bum TGAU dda, gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd 0.7 y cant yn is na chyfartaledd Cymru.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd gwella allweddol a nodwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ond erys heriau sylweddol o hyd

22 Dengys data StatsCymru ar gyfer 2013-14 fod gwariant alldro refeniw gros o £72,914,000 ar wasanaethau cymdeithasol. Gan ystyried chwyddiant, mewn termau real, mae gwariant alldro ar wasanaethau cymdeithasol[3] wedi gostwng £7,096,000 ers 2011-12.

23 Mae AGGCC yn cyhoeddi adolygiad a gwerthusiad blynyddol o wasanaethau cymdeithasol Cynghorau, sy'n nodi'r meysydd allweddol lle y gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol a meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad mwyaf diweddar ar y Cyngor ym mis Hydref 2014 ac mae ar gael yn www.cssiw.org.uk.

24 Nododd AGGCC fod y Cyngor wedi parhau i weithio tuag at ei agenda newid a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, yn unol â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

25 Mae'r Cyngor wedi gweld nifer o newidiadau yn y tîm rheoli corfforaethol gyda phenodiadau newydd i rolau cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol a chyfarwyddwr corfforaethol dros blant.

26 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau penodol o ran gwella gwasanaethau plant ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Yn ogystal â monitro rhai o'r meysydd i'w gwella ers y llynedd, mae AGGCC hefyd wedi nodi heriau eraill y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu ar gyfer 2014-15 a bydd yn adolygu cynnydd yn ei adroddiad gwerthuso yn 2015.

## Wrth ddarparu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd mae'r Cyngor yn rhagori ar y safon ofynnol neu yn ei chyrraedd yn y rhan fwyaf o'i wasanaethau

27 Mae 'gwasanaethau amgylcheddol lleol' yn cynnwys iechyd yr amgylchedd; casglu a gwaredu gwastraff; glanhau strydoedd; a mynwentydd a gwasanaethau amlosgi a chorffdai. Dengys data StatsCymru ar gyfer 2013-14 fod gwariant alldro refeniw gros o £16,176,000 ar wasanaethau amgylcheddol lleol. Gan ystyried chwyddiant, mewn termau real, mae gwariant alldro refeniw ar wasanaethau amgylcheddol lleol[4] wedi gostwng £1,715,000 ers 2011-12.

3 Fel y'i mesurwyd gan ddatchwyddwyr CMC y Trysorlys ym mis Ebrill 2015.
4 Fel y'i mesurwyd gan ddatchwyddwyr CMC y Trysorlys ym mis Ebrill 2015.

28 Yn ystod 2014, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol astudiaeth o wasanaethau iechyd yr amgylchedd ledled Cymru. Defnyddiodd yr astudiaeth fodel Safonau Arfer Gorau a gofynnwyd i swyddogion Cynghorau werthuso eu gwasanaethau yn eu herbyn. Mae'r safonau hyn wedi cael eu mabwysiadu gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan er mwyn diffinio ymhellach yr ystod o wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol a dewisol a ddarperir gan gynghorau yng Nghymru. Mae'r safonau'n diffinio gweithgarwch ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth ac yn egluro'r nodweddion ar gyfer: gwasanaeth o safon ofynnol; gwasanaeth o safon dda; ac arfer gorau ym mhob un o'r meysydd. Yn fras, mae'r rhain yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau statudol i bob gwasanaeth iechyd yr amgylchedd sy'n cwmpasu'r 11 o feysydd gweithgarwch.

29 Cyflwynwyd ein hadroddiad cryno lleol i'r Cyngor ym mis Ionawr 2015. Yn y rhan fwyaf o feysydd iechyd yr amgylchedd, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n rhagori ar y safon ofynnol. Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu'r canlynol:

a 25 y cant o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r safon uchaf o gymharu â 37 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd;

b aseswyd bod 19.9 y cant yn cael eu darparu i safon dda o gymharu â 30 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd;

c roedd 27.8 y cant yn unol â'r safon ofynnol o wasanaeth a bennwyd o gymharu â 22 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd;

ch roedd 5.2 y cant yn is na'r safon ofynnol; ac

d nid oedd 22.1 y cant o'r gwasanaethau a gwmpaswyd wedi'u cynnwys yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd a archwiliwyd.

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran neilltuo ei daliadau tai yn ôl disgresiwn ond ni all farnu effeithiolrwydd ei waith o ran mynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles

30 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a chaiff effaith fawr ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r credyd cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o'r prif bethau y mae cynlluniau Llywodraeth y DU yn canolbwyntio arno yw'r newidiadau i fudd-dal tai, gyda'r nod o leihau gwariant cenedlaethol blynyddol tua £2.3 biliwn.

31 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd ei adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn.[5] Gwnaed gwaith hefyd i adolygu'r ffordd y rhoddodd cynghorau newidiadau ar waith ac mae'r adborth a roddwyd i'r Cyngor yn cael ei ddefnyddio i wella trefniadau'n lleol.

32 I grynhoi, nododd ein hadborth lleol y canlynol:

a Mae angen i'r Cyngor lunio polisi ar daliadau tai yn ôl disgresiwn sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn eu blaenoriaethu er mwyn cefnogi ei waith o fynd i'r afael ag effaith y newidiadau diwygio lles.

b Mae'n hawdd cael gafael ar ffurflen gais ar-lein y Cyngor ond mae'r wybodaeth yn gyfyngedig a dim ond cyngor sylfaenol a roddir, gydag ychydig o enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ariannu drwy ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn.

c Mae'r ffurflen gais yn hirfaith (wyth tudalen) ac mae'n gofyn am wybodaeth fanwl am incwm a gwariant, a ddefnyddir i broffilio patrymau gwariant y cwsmer. Efallai y bydd lefel a manylder y wybodaeth a geisir yn atal rhai ymgeiswyr rhag gwneud cais am y gallai gael ei hystyried yn feichus.

ch Yn gadarnhaol, mae modd cwblhau'r ffurflen gais ar-lein a'i chyflwyno i'r Cyngor drwy e-bost. Mae cymdeithasau tai wedi cael copi electronig o'r ffurflen gais hefyd a chaiff taliadau tai yn ôl disgresiwn eu hyrwyddo'n helaeth gan wasanaethau cwsmeriaid a staff budd-dal tai er mwyn annog pobl i'w hawlio.

33 Roedd gan y Cyngor systemau ar waith i fonitro'r swm a wariwyd yn erbyn swm yr arian a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro faint o gwsmeriaid a gafodd gymorth ond nid yw'n nodi faint o landlordiaid a gafodd gymorth er mwyn sicrhau bod darpariaeth dda ym mhob sector ac ardal. Nid yw'r Cyngor ychwaith yn monitro effaith taliadau tai yn ôl disgresiwn na'r ffordd y mae'r cyllid hwn wedi helpu tenantiaid tai cymdeithasol yr effeithiwyd arnynt gan, er enghraifft, y cymhorthdal ystafell sbâr, na'r rhai sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref.

34 Ar ddiwedd mis Ionawr 2015, roedd y Cyngor wedi gwario £302,642 (97 y cant) o'i ddyraniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef £310,253. Mae'r Cyngor wedi cynorthwyo 890 o gwsmeriaid. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn ceisio defnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn yn gadarnhaol er mwyn helpu'r rhai y mae angen cymorth arnynt ond mae angen iddo gysylltu'r taliadau tai yn ôl disgresiwn â pholisi lles strategol ehangach er mwyn dangos effaith ei waith. Ym mis Ebrill 2015, cytunodd y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru i fabwysiadu dull gweithredu unffurf o ddosbarthu taliadau tai yn ôl disgresiwn yn y dyfodol, yn rhannol er mwyn ymdrin â'r anghysondebau a'r gwendidau sylweddol a nodwyd yn ein hadolygiad.

5 Mae taliad tai yn ôl disgresiwn yn daliad y gall pobl ei gael yn ôl disgresiwn eu cyngor lleol er mwyn rhoi help ychwanegol i dalu costau tai yn ychwanegol at y budd-dal tai.

## Mae’r Cyngor yn parhau i gymryd camau i estyn y ddarpariaeth Gymraeg wrth ddarparu ei wasanaethau

35 Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

36 Mae’r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor arnynt. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â’r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i’r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu’r cynllun iaith. Mae’r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

37 Nododd y Comisiynydd fod ymarfer i gasglu gwell data ar sgiliau ieithyddol staff wedi dechrau ac wedi dod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Bwriedir defnyddio’r wybodaeth wedi’i diweddaru wrth roi cynllun hyfforddiant iaith Gymraeg y Cyngor ar waith. Cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuenctid ymgynghoriad, er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth a sicrhau y caiff anghenion ieithyddol ei ddefnyddwyr eu diwallu.

38 Ystyriodd y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion gydymffurfiaeth darparwyr allanol â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg unwaith eto, gan weld tystiolaeth o welliant cyffredinol o gymharu â’r canfyddiadau a nodwyd yn ystod 2012-13.

39 Mae’r Cyngor wedi gweithio ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru ac wedi cyfrannu at gostau ariannu prentis, er mwyn cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau chwaraeon ac ymarfer corff cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys gwersi nofio) i blant. Caiff y ddarpariaeth hon ei hehangu yn ystod 2014-15.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau (archwiliad o gyfrifon y Cyngor)

40 Ar 10 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

## Mae'r Cyngor yn parhau â'i ddull gweithredu cadarn o ran ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

41 Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, rydym wedi nodi arfer cadarnhaol yn nhrefniadau rheoli ariannol tymor canolig y Cyngor a thros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi'u mireinio ymhellach. Cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2015 i 2019 ar 25 Chwefror 2015. Mae'r strategaeth yn nodi cynigion ar gyfer £39.4 miliwn o'r £48.8 miliwn o arbedion sydd eu hangen, gan gynnwys yr holl £11.2 miliwn sydd ei angen yn 2015-16.

42 Mae'r Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r tybiaethau a wneir ynddi yn rheolaidd. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i chysylltu â strategaethau eraill, ond gellid atgyfnerthu ac egluro'r cysylltiad â Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu. Gallai'r Cyngor hefyd gynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â sut mae buddsoddi yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau gwella. Mae'r Cyngor wrthi'n mireinio trefniadau adrodd ar berfformiad hefyd er mwyn ei gwneud yn haws iddo nodi sut mae arbedion mewn gwasanaethau yn effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau.

## Cynigion ar gyfer gwella: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

| | |
|---|---|
| C3 | Mireinio'r trefniadau adrodd 'dangosfwrdd' ymhellach er mwyn ei gwneud yn bosibl i effaith gostyngiadau ariannol ar ansawdd gwasanaethau gael ei gwerthuso. |
| C4 | Cynnwys mwy o fanylion yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ynglŷn â sut mae'n ymdrin â phob amcan gwella; byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i roi enghreifftiau o fuddsoddi mewn meysydd sy'n ymwneud â'i flaenoriaethau gwella. |

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer nodi a gwneud arbedion yn dangos y rhan fwyaf o'r ffactorau sydd eu hangen i sicrhau llwyddiant

43 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei adnoddau dros y pedair blynedd nesaf er mwyn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bod yn rhaid iddo wneud arbedion o £48.8 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Mae'r gostyngiadau cyllidebol yn heriol ac mae nifer o gynigion yn dibynnu ar newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Fel rhan o'r gofyniad hwn i wneud arbedion, mae'r gyllideb ar gyfer 2014-15 yn cynnwys gostyngiadau o £11.274 miliwn. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rhaglen Newid i Ben-y-bont ar Ogwr er mwyn ei helpu i gyflawni ei arbedion a'i ymrwymiadau i newid gwasanaethau.

44 Mae Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb y Cyngor yn adolygu cynigion cyllidebol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y pwysau ar y gyllideb a'r cynigion ar gyfer arbedion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yng ngoleuni faint o arbedion sydd eu hangen, cyflwynwyd trefniadau monitro cyllideb a pherfformiad ychwanegol. Gofynnodd y Cyngor i ni brofi'r trefniadau ychwanegol o ran eu heffeithiolrwydd.

45 Profwyd y trefniadau gennym yn erbyn tri ffactor allweddol y mae ymchwil wedi dangos eu bod yn cefnogi rhaglenni arbedion effeithiol:

a Ansawdd arweinyddiaeth, gan asesu a oedd tystiolaeth o'r canlynol:
- nawdd effeithiol ar lefel swyddogion gweithredol er mwyn gallu goresgyn rhwystrau mewnol a chreu awydd am newid; ac
- ewyllys wleidyddol i fod yn ddi-ofn, yn agored a pheidio â glynu at farn gul o'r hyn y gellir ei newid, neu y dylid ei newid.

b Ansawdd trefniadau llywodraethu, gan asesu a oedd tystiolaeth o'r canlynol:
- bod y rhaglen arbedion yn cael ei llywodraethu'n gadarn gyda goruchwyliaeth gan uwch swyddogion a strwythurau adrodd effeithiol;
- adnodd wedi'i neilltuo ar gyfer rheoli'r rhaglen arbedion, er enghraifft rheolwr rhaglen sydd ag atebolrwydd amlwg a chymorth i'r rhaglen; ac
- 'adnoddau' sy'n ei gwneud yn bosibl i'r rhaglen gael ei rheoli'n effeithiol, er enghraifft proses o olrhain cyfleoedd, proses ddilysu, cofnod o risgiau a phroses o olrhain buddiannau.

c Ansawdd yr her, gan asesu a oedd tystiolaeth o'r canlynol:
- her annibynnol ddigonol a oedd yn sicrhau ymagwedd agored wrth ystyried opsiynau;
- dadansoddiad sy'n nodi safonau gofynnol gwasanaethau (safonau a chostau) cyn penderfynu ar newidiadau;
- meincnodi a dysgu gan eraill; ac
- achosion busnes cadarn a fu'n fodd i wneud penderfyniadau hyddysg.

46 Gwelsom gryfderau mewn arweinyddiaeth o ran dealltwriaeth aelodau etholedig a rheolwyr o'r arbedion y mae angen iddynt eu gwneud yn y tymor canolig a'r awydd i newid. Nodwyd hefyd gennym fod angen pennu gweledigaeth ar gyfer ffurf y Cyngor yn y dyfodol a'r effaith ar flaenoriaethau corfforaethol fel y gall aelodau a rheolwyr seilio gwaith cynllunio ar gyfer newid gwasanaethau a lleihau costau ar y weledigaeth hon. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn ac wedi adolygu ei flaenoriaethau corfforaethol.

47 Canfuom fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer rheoli ei raglen arbedion. Mae'r Cyngor yn defnyddio proses o olrhain y rhaglen arbedion sy'n cael ei hadolygu bob mis gan bob cyfarwyddiaeth, bob chwe wythnos gan yr Uwch Dîm Rheoli ar y cyd (h.y. y cyfarwyddwyr corfforaethol ynghyd â phenaethiaid gwasanaeth), a phob chwarter drwy'r broses Asesu Perfformiad Corfforaethol. Caiff adroddiadau monitro cyllidebol chwarterol eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu a'u hadolygu ganddynt. Mae gan y Cyngor hanes da o sicrhau arbedion a nodwyd yn ystod blwyddyn yn erbyn camau gweithredu wedi'u cynllunio a gymeradwywyd ganddo, a fframwaith corfforaethol effeithiol sy'n cysylltu amcanion corfforaethol â gwaith cynllunio ariannol.

48 Gwelsom rai cryfderau mewn proses herio a oedd yn cynnwys aelodau'r Cabinet, aelodau Craffu ac uwch swyddogion yn y gwaith o ystyried a datblygu opsiynau. Mae hyn wedi cynnwys cydnabyddiaeth o'r angen i gynnwys manylion ychwanegol am gynigion er mwyn esbonio eu heffaith, fel y gall aelodau ddeall eu heffaith debygol ar wasanaeth yn well. Fel llawer o gynghorau eraill, mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod bod angen meithrin dealltwriaeth drwyadl o'r hyn y mae pob gwasanaeth yn ei gostio, yng nghyswllt safon y gwasanaeth a ddarperir a'i berfformiad ac o gymharu â darparwyr gwasanaethau tebyg eraill. Er bod y Cyngor yn monitro perfformiad mewn ffordd gadarn, ceir defnydd anghyson o wybodaeth reoli megis costau uned, a chymharwyr llwythi achosion er mwyn canfod costau gwasanaethau a llywio'r broses gwneud penderfyniadau.

49 Gwnaethom ddau gynnig ar gyfer gwella:

## Cynigion ar gyfer gwella: Strategaeth Arbedion

| | |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | |
| C5 | Dylai'r Cyngor egluro ei weledigaeth yn y tymor canolig a'r hyn a olyga o ran blaenoriaethau corfforaethol a ffurf y Cyngor yn y dyfodol fel y gall rheolwyr gynllunio ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau a lleihau costau yn well. |
| **Herio** | |
| C6 | Dylai'r Cyngor annog rheolwyr gwasanaethau i wneud defnydd ehangach o wybodaeth reoli er mwyn llywio cynlluniau arbedion posibl. |

# Llywodraethu

## Mae'r Cyngor wedi llwyddo i fabwysiadu dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau yn y gorffennol, mae'n eu rheoli'n effeithiol ar hyn o bryd ac yn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol

50 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen ystyried y posibilrwydd o newid dulliau o ddarparu gwasanaethau yng ngoleuni'r pwysau ariannol sylweddol parhaus er mwyn sicrhau'r arbedion sydd eu hangen a chynaliadwyedd ariannol hirdymor yn y pen draw. Mae newidiadau deddfwriaethol hefyd yn ysgogi newid. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl a chymunedau ac asiantaethau eraill, gan geisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

51 Gofynnodd y Cyngor i ni asesu ei barodrwydd i ystyried dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. Er mwyn gwneud hyn, edrychwyd ar hanes blaenorol y Cyngor, pa mor dda roedd yn rheoli gwasanaethau ar hyn o bryd a oedd yn cael eu darparu drwy ddulliau eraill a'r ffordd roedd opsiynau newydd yn cael eu hasesu.

52 Canfuwyd y canlynol:

a. mae'r Cyngor wedi llwyddo i fabwysiadu dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau yn y gorffennol;

b. mae ganddo drefniadau effeithiol ar waith i adolygu perfformiad gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy ddulliau amgen; ac

c. mae'n agored ei feddwl o ran awgrymiadau cychwynnol ar gyfer opsiynau amgen o ddarparu gwasanaethau.

## Cynigion ar gyfer gwella – dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

| | |
|---|---|
| C7 | Pennu opsiynau amgen o ddarparu gwasanaethau a ffefrir ar lefel gwasanaeth yn seiliedig ar werthoedd y Cyngor fel modd i roi arweiniad wrth arfarnu opsiynau. |
| C8 | Os caiff dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau eu mabwysiadu, sicrhau bod pwrpas strategaethau yn eglur a'u bod wedi'u hategu gan fesurau llwyddiant clir. |
| C9 | Gwerthuso'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â newidiadau o'r fath yn llwyddiannus a'r ffordd y bydd y Cyngor yn sicrhau sgiliau a gwybodaeth o'r fath. |

## Roedd trefniadau ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau am ddiogelu plant yn ddigonol

53 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i roi trefniadau diogelu ar waith sy’n cynnwys gwaith cynllunio strategol, cymorth a chanllawiau i holl ddarparwyr gwasanaethau perthnasol yn eu hardal, a darparu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol eu hunain. Yn benodol, mae ganddo ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn sicrhau diogelwch a lles plant yn eu hardal, yn bennaf drwy’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

54 Cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol astudiaeth genedlaethol er mwyn asesu’r trefniadau diogelu sydd ar waith gan gynghorau yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth hefyd yn cynnwys cyflwyno adroddiadau unigol i bob cyngor.

55 Gwelodd yr astudiaeth gryfderau yn nhrefniadau’r Cyngor ond nododd feysydd y gellid eu gwella hefyd. Roedd y cryfderau yn cynnwys y canlynol:

- a Y defnydd o Bolisïau a Gweithdrefnau Cymru Gyfan er mwyn llywio ei waith ar ddiogelu plant. Ategwyd hyn gan gyfres o bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Ymhlith y rhain mae polisïau cwyno, disgyblu, diogelu addysg oedolion, a thrwyddedu tacsis. Roedd Polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei ddatblygu a’r nod yw tanlinellu’r ffaith bod diogelu yn ‘fater i bawb’.
- b Roedd systemau amrywiol ar waith er mwyn monitro, adolygu a herio perfformiad. Roedd Bwrdd Gwella Strategol Gofal Cymdeithasol y Cyngor yn adolygu’r wybodaeth am berfformiad a ddefnyddir ganddo er mwyn gwerthuso pa mor dda y mae’n perfformio gyda’r nod o nodi mesurau mwy ystyrlon o farnu llwyddiant.
- c Roedd trefniadau craffu ar gyfer diogelu yn dda ac roedd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol o bwysigrwydd gwaith diogelu. Gwelwyd tystiolaeth bod y pwyllgor hwn yn dylanwadu ar bolisïau a strategaethau y cytunwyd arnynt gan yr Arweinydd Portffolio dros Blant.
- ch Roedd gan yr uwch dîm arwain ymwybyddiaeth dda o ddiogelu ac mae’r mater yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Corfforaethol a’r Cabinet.
- d Gwelwyd tystiolaeth bod y Cyngor yn dysgu o’i werthusiadau ac yn gwneud gwelliannau yn unol â hynny.
- dd Roedd y Cyngor yn cymryd camau priodol i wella ei gydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data.
- e Ar y cyfan, roedd trefniadau chwythu’r chwiban yn gadarn, ond roedd angen ymdrin â rhai gwendidau sy’n ymwneud â hyfforddiant. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau clir i reolwyr ar sut i roi’r polisi ar waith.

## Cynigion ar gyfer gwella: diogelu

| | |
|---|---|
| C10 | Llunio Polisi Diogelu Corfforaethol terfynol sy'n nodi'n glir rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu. |
| C11 | Cwblhau adolygiad y Bwrdd Gwella Strategol Gofal Cymdeithasol o wybodaeth am berfformiad a llunio mesurau sy'n rhoi sicrwydd digonol bod systemau yn gweithio'n effeithiol. |
| C12 | Sicrhau bod y rhaglen sefydlu gorfforaethol ar gyfer pob aelod newydd o staff yn cynnwys hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi diogelu corfforaethol y Cyngor. |
| C13 | Nodi a chytuno ar raglen o waith archwilio mewnol priodol ar gyfer diogelu. |

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 y Cyngor

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Steve Barry, Rheolwr

Helen Keatley, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad y Cyngor o berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Steve Barry, Rheolwr

Helen Keatley, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd M E J Nott
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Annwyl Gynghorydd Nott

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2014.

Nododd yr adroddiad hwn y canlynol:

- nid oedd gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch trefniadau adrodd ariannol, ond nodwyd gennym fod angen adolygu'r dull o brisio portffolio eiddo'r Cyngor er mwyn gallu sicrhau a dangos nad yw gwerth cario'r asedau yn wahanol mewn ffordd berthnasol i werth teg ar bob diwedd blwyddyn;
- ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad; ac
- ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol yr oedd angen i ni roi gwybod amdanynt.

Mae swyddogion wedi cytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n ymwneud â'r portffolio eiddo yn y dyfodol.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2014.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir



Darren Gilbert
**KPMG LLP**

**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i’r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy’n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â’r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu’r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy’n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau'r Cyngor


## Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





## Cyfanswm Incwm a Gwariant




## Nifer y staff sy'n cyfateb i weithio oriau llawn amser 2010-11 i 2012-13




## Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru